| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | 18 MEHEFIN 2015 |
| **TEITL:** | CWYNION IAITH |
| **AWDUR:** | GWENLLIAN MAIR WILLIAMS<br>SWYDDOG DATBLYGU IAITH GWYNEDD (GWEITHLE) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR. |

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| | | |
| **Ebrill 2015** | Cwyn a gyfeiriwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd ynghylch arwydd uniaith Saesneg wedi ei osod yn un o feysydd parcio Cyngor Gwynedd, yn agos at y twnnel yng Nghaernarfon. | Y gwasanaeth perthnasol wedi ymchwilio i'r mater a chanfod bod yr arwydd Cymraeg wedi diflannu dros nos (wedi ei ddwyn o bosib). Roedd oedi wedi bod cyn gosod arwydd newydd o ganlyniad i absenoldeb salwch y swyddog cyfrifol ond trefnwyd bod y cwmni arwyddion yn mynd i osod arwydd newydd cyn diwedd yr wythnos.<br>Cysylltwyd â Swyddfa'r Comisiynydd i roi eglurhad a chadarnhad bod y mater wedi cael ei ddatrys. |
| **Ebrill 2015** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am iddynt dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan Dŵr Cymru.  Roedd y llythyr gan Dŵr Cymru yn deillio o ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd, felly roedd yr achwynydd yn cwestiynu iaith yr ohebiaeth wreiddiol gan Gyngor Gwynedd. | Holwyd y gwasanaeth perthnasol ac anfonwyd copi o'r ohebiaeth wreiddiol at yr achwynydd fel tystiolaeth bod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r Cynllun Iaith, ac wedi anfon gohebiaeth dwyieithog at Dŵr Cymru. |
| **Ebrill 2015** | Cwyn gan Swyddog o'r Adran Addysg am lythyr a dderbyniodd gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gyda Chymraeg gwallus ac annealladwy. | Cysylltodd y Swyddog yn uniongyrchol â swyddfa'r Tribiwnlys i dynnu eu sylw at y gwallau a derbyniwyd llythyr diwygiedig o fewn yr wythnos. |
| **Ebrill 2015** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am dderbyn ffurflen pleidlais bost uniaith Saesneg | Cyfeiriwyd y mater at yr Uwch Reolwr sydd â chyfrifoldeb am yr Uned Etholiadol. Eglurwyd fod y broses o gofrestru ar-lein yn digwydd drwy wefan ganolog y llywodraeth yn Llundain. Os gofynnir am ffurflen i gael pleidlais bost, fe'i hanfonir yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | uniongyrchol o’r wefan fel atodiad i’r e-bost cydnabod, fel y mae’n ymddangos y digwyddodd yma. Nid y Cyngor felly sydd yn gyfrifol am ei hanfon. Ar y llaw arall, os derbyniwn gais yn uniongyrchol, yna anfonir ein ffurflen ddwyieithog at yr ymgeisydd. |
| **Mai 2015** | Cwyn gan aelod o’r cyhoedd ynglŷn â Swyddog Gorfodaeth Parcio di-Gymraeg | Cyfeiriwyd y mater at swyddog yn yr Adran Rheoleiddio, a bu iddynt ymddiheuro ac ymateb i gwyn yr achwynydd gan ddileu dyled y tocyn parcio yn sgil amgylchiadau arbennig yr achwynydd ar y pryd. |
| **Mehefin 2015** | Cwyn gan Gynghorydd lleol am arwyddion uniaith Saesneg ar Ffordd y Coleg, Bangor | Cyfeiriwyd y mater at swyddog yn yr Adran Briffyrdd. Wedi iddo gysylltu gyda’r contractwyr, cytunodd y cwmni i symud yr arwyddion. Nid oeddynt wedi derbyn caniatâd Cyngor Gwynedd i osod yr arwyddion. |
| | | |